WG35.5 210

# MARWNAD

## Mr. EVAN WILLIAMS,

O *Faesgenffordd*, yn agos i'r *Garth*, yn Sir FRECHEINIOG:

1776

Wr oneſt, cymmwynaſgar, a duwiol, ac a foddodd yn yr Afon *Gwy*, yr 11 o *Fedi*, 1776; o ddautu canol Oed: ac a adawodd o'i ol Wraig a Mamynghyfraith hiraethlon; roeſawgar, hefyd a ffyddlon i holl Eglwys Dduw.

At ba un y chwanegwyd

## HYMN, ar Dôn newydd,

A gymmerwyd o Synagog yr *Iuddewon*:

Yr Hymn genir arni'n *Saeſoneg* ſy'n dechreu fel hyn, "*The God of* Abra'm *praiſe*, &c."

---

Gan WILLIAM WILLIAMS.

---

ABERHONDDU,
Argraphwyd dros yr AWDWR gan E. EVANS,
Lle gellir cael Argraphu pob math o Gopiau ar Bapur da a Llythyren newydd. MDCCLXXVI.

CWS5515
Y20 = 3/79DX

# MARWNAD, &c.

1 FFarwel fyd twyllodrus dengar,
Siomedigaeth wyt o'r bron!
Hwylio gŵr 'rhyd cenfor tawel,
Yno ei foddi tan y don:
Addo dyddiau hir, a llwyddiant,
Golud ehang, enw, a chlod,
Ymhen awr ar ol eu profi
Taro eu perchen tan dy droed.

2 Pam dieneidiaist *Evan Williams*?
Ddyn hawddgara îs y ne'!
Pam i ganol *Gwy* y gyrraist
Angau glâs i gwrdd ag e'?
Cipio gŵr oedd ar ei siwrneu,
Lawr a'i suddo tan y don,
Anrhugarog iawn y deliaist
A fy ffiynd y funud hon.

3 Tithau Angau, O na arbedsit
(Er mor danbaid yw dy lid)
Ddyn defnyddiol i ryw filoedd
O drafaelwyr yn y byd;
O na buasit yn tosturio,
Wrth yr addfwyn hawddgar un
Ag sydd heddyw ym *Maesgenffordd*,
Yn galaru wrthi ei hun.

4 Angau chwerw, O na buasai
Hynny yn rhedeg yn dy frŷd!
Pa sawl myrdd o rai disylwedd
Ellir spario yn y byd!

Pa

Pa faint o henaint tros ben oedran,
Yma a thraw ſydd îs y ne',
Ag mae ie'ngctid yn llawn addfed
Ac yn brefu am gael eu lle ?

5 Ond nid felly trefnodd arfaeth,
Cynghor dwyfol bia'r dydd ;
'Rhyn a welo Duw yn orau
Er neb dynion hynny fydd ;
Rhaid oedd cael o dŷ *Maeſgenffordd*,
Enaid ſyml pur i maes,
A'i roi i ſuddo heb un rhybudd
Yngwaelodion afon lâs.

6 Afon ddofn, anrhugarog,
Pam y teflaiſt ŵr i lawr ?
Oedd yn mynd heb feddwl niwaid,
Gyd â brŷs ar achos mawr ;
Toſt yw'r gorthrwm, ſtopi ana'l
Dyn lluddedig ar ei daith ;
A thrwy drais ei ſuddo'n union
Yn nyfnderoedd dyfroedd maith.

7 O na buaſai yn dy ddyfroedd
(Pe buaſai wrth fôdd y ne')
Un o *Ffrainge*, o *Spain*, neu'r *Idal*,
Neu ryw *Indian* yn dy le ;
A oedd neb o holl blant *Adda*
Lawr i drulio gyd â'r lli ?
Neb mae'n debyg fynnai angau,
Ond yn unig ffrynd i mi.

8 Daccw'r 'nifail cryf yn cwympo,
Daccw nghyfaill tan y don ;
O drigolion *Llanfair*, helpwch !
Help, os byth y funud hon !

Nid oes dyn er faint y gortrech,
　Yno yn agos at y fan,
Nac i waeddu, nac i helpu,
　Yr anwyl, addfwyn ddyn i'r lan.

9 Daccw'r amser yn terfynu,
　Daccw ei ben e'n mynd i lawr,
Ac yn taro fel wrth lefel
　Obry yn erbyn carreg fawr;
Daccw'r enaid yn ymadel,
　Cafodd yr ymennydd glwy',
Ac ni egur byth mo'i lygaid
　Cyn yr adgyfodiad mwy.

10 Mae fy nghalon wrth fyfyrio
　Bod rhyw ffrynd yn syrthio lawr,
Ar ryw raiadr cyndeiriog
　Fo'n pystyllo i lynnoedd mawr,
Yn rhoi'm hymmysgaroedd grynu,
　Oeri ngwaed, a glassu ngwedd,
Ofn, cariad, ac anobaith
　Sy'n fy chwareu I uwch y bedd.

11 *Gwy* liseiriol o hyn allan,
　Fyth darfydded am dy glod;
Na foed enw ymhlith afonydd
　Byth ardderchog i ti'n bod;
Na phlesered pendefigion
　Rodio'th faith gorlannau mawr,
Pan y boddaist frawd mor ffyddlon
　Tan dy ddyfroedd glâs i lawr.

12 Byth na thyfed un blodeuyn
　Hardd, aroglaidd ar dy lan;
Diffrwyth fyddo'th faesydd ehang
　A'th weirloydd ymhob man;

Ac

Ac na welir mwy byſgodyn
  Brâs yn nofio yn dy ddw'r :
Am it' daflu i dy waelod
  Ffyddlon a ſerchoccaf ŵr.

13 *Betty*, *Betty*, ti geſt golled,
  Colli mwy nâ cholli'r byd ;
Mwy nâ brawd, nâ thad, na chyfaill,
  Priod ffyddlon it' o hyd :
Fe'th adawyd yn ymddifad
  O gyſuron o bob rhyw,
Ac yn awr dy unig noddfa
  Yw bod gennyt ffyddlon Dduw.

14 Mi âf bellach i *Faeſgenffordd*
  Tan ochneidio ar fy nhaith ;
Nid yn llawen at gyfeillion,
  Fel y daethum lawer gwaith ;
Dau ffyddlonaf ffrynd oedd yno,
  Ond yn awr 'does yno ond un ;
Af at honno, ac eiſteddaf
  I gyd-wylo wrth ei chlun.

15 'Drycha i'r gegin, 'drycha i'r parlwr,
  'Drycha i ſtairau'r ſeler fawr ;
Tro fy llygaid gwlyb wylofus
  Gylch o ddautu fynu a lawr ;
Ac fe haera'm ffanſi'n gadarn
  Gwelai *Williams* o fy mlaen,
Yn yr hâl, neu yn y parlwr,
  Yn yr entri, neu wrth y tân.

16 Ac mae cariad i mi'n peri,
  Peri i mi gredu'n gry',
Na fu marw dim o hono,
  Fod e'n rhyw le yn y tŷ ;

Mae

Mae fy llygaid bron a dallu
  Wrth ei chwilio ef i ma's,
Ffansi yw, mae wedi boddi
  Yn nyfnderoedd afon lâs.

17 Ni ymofynnaf o hono yma,
  Mae e'r awrhon yn y ne';
A mwrddiwnau o ferthyron
  Brâf, a feintiau gyd ag e':
Nid oes yma neb ond *Betty*,
  Yn ochneidio 'rhyd y tŷ,
Minnau â i ochneidio hefyd
  Mewn rhyw gydfein drwm â hi.

18 Draw ei famynghyfraith hawddgar,
  Drift yn eiftedd wrthi ei hun;
Wylo'n ddiftaw fel ymddifad
  Am dirionaf hyfryd ddyn;
Wylo am fab, a thad, a thadmaeth,
  Wylo am ffrynd ffyddlonaf gwiw,
Ac na wêl hi mo'i gyffelyb
  Tra fo hi ar y ddae'r yn byw.

19 'Nawr mae cariad yn dylifo
  Gyd â mwy llifeiriol flâs,
Pan mae'm ffrynd ffyddlona'n gorwedd
  Obry yn y ddaear lâs;
Ni ŵyr teimlad, a chymdeithas,
  Beth yw nerthoedd cariad dall;
Yn ei rym mae e'n teyrnafu
  Pan 'madewo'r naill a'r llall.

20 Pam mae'r wyryf bur a glwyfwyd
  Gan biccellau cariad dyn,
Mewn rhyw fyfyrdodau dyfnion
  Yn fwfwrdan wrthi ei hun?

Am

Am i'w Hanwyl 'mado â'i chwmpni,
Pellder ſy'n chwanegu'r clwy';
Ac anobaith ynte yn haeru
Na chaiff weld o hono mwy.

21 Dyna pam mae'r wraig ffyddlona',
Mewn galarnad ddydd a nos,
Am i angau wneud yſgariaeth
Baro tra parhao ei hoes;
Pwy ry gyngor? pwy ry addyſg?
A phwy bellach ddal yr iau?
'Does yn awr ond un ymddifad
Gynne fach lle'r ydoedd dau.

22 *Betty*, *Betty*, rho'th ddeheulaw,
Tyred bellach gyd â mi,
Awn i ymofyn cyſur dwyfol
O gyffyniau'r nefoedd fry;
Tyred i'r maeſydd i chwedleua,
Dygwn Fibl yn ein llaw,
Ac o'r ddaear yn ddirgelaidd
Hedeg wnawn i'r nefoedd draw.

23 Ni gawn weled *Evan Williams*,
Fry a'i goron ar ei ben;
Nid mewn dillad lân, a ſidan,
Harddwch dynion îs y nen;
Cwmmwl goleu fel yr haulwen,
Teneu yſgafn fel y gwynt,
Yw ei wiſg yn bur gyffelyb
I'r *Shecinah* diſglair gynt.

24 Anthem cariad yw ei Anthem,
Poenau'r croeshoeliedig Oen,
Dwbl ganu, dwbl bleſer,
Uwchlaw galar, uwchlaw poen;

Fe

Fe anghofiodd am *Faesgenffordd*,
Mae pleserau'r nef yn fwy,
Ac nid digio wrth yr afon
Mae e' nawr, ond caru *Gwy*.

25 O maddeuwch im' fy nghanu,
Cariad ydyw gwraidd fy nghân;
Galar, hiraeth pur, a cholled
Aeth â'r pin 'sgrifennu 'mlaen;
'Charodd gŵr fi erioed yn rhagor
Nag efe mewn tre' na gwlad;
Cariad gwragedd oedd ei garu,
Ond o lawer hwy parhâd.

---

## HYMN *Ar Fesur newydd.*

1 O Tyred addfwyn Oen, Iachawdwr dynol-ryw,
At wael bererin sydd tan boen, ac ofnau'n byw;
O helpa'r llesg a'r gwan i ddringo i'r lan yn hy',
Tros greigydd geirwon, mawrion, serth i *Salem* fry.

2 Mae'r gelyn ar bob llaw yn lesio ei saethau llym,
A minneu yn ofni oddi draw rhag eu grym;
O fewn dy fynwes bur dwg fi tu â thir fy ngwlad,
I gael meddiannu'r hyfryd fraint, pwrcas y gwaed.

3 O dal fi yr ochor hyn, a dal fi yr ochor draw,
Os sefyll wnai, ni safai ddim, ond yn dy law;
Addewid nefoedd fry yw'm cymmorth I yn wir,
Na chyfeiliorna I ar fy nhaith i *Salem* bur.

4 Yn eitha grym y dw'r, a'r tonnau'n curo lawr,
Tywysog nefoedd sydd yn ffrŵd y dyfnder mawr;
Fe ddeil fy mhen i'r lan, can's Ffrynd i'r gwan yw ef,
Ac arno rhoddai mhwys a mrŷd, nes mynd i'r nef.

5 Dewch bellach, dewch yn hŷ, elynion heb ddim rhi',
Ni ffynnwch fyth wrthnebu nerth y nefoedd fry;
F'â'r lluoedd ar eu taith trwy'r dyfroedd maith ymla'n
Can's dilyn maent heb wyro dim y glofen dân.

D I W E D D.